| | |
|---|---|
| **Hysbysiad Preifatrwydd Rhif:** | 003 |
| **Dyddiad Creu:** | 16/07/2019 |
| **Dyddiad Cyhoeddi:** | 08/09/2020 |
| **Rhif y Fersiwn:** | 2.4 |
| **Cyf y Ddogfen:** | |

---

**Manylion Cyswllt:**

Gwasanaethau Pobl Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Ffôn: 01443 864337
E-bost: TimGweinyddolAD@caerffili.gov.uk

Ewch i'r dudalen 'Dod o hyd i ysgol' ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili am fanylion cyswllt ysgolion unigol:

https://www.caerphilly.gov.uk/Services/Schools-and-learning/Schools?lang=cy-gb

Fel arall, mae'r llyfryn *Dechrau Ysgol* yn cynnwys manylion cyswllt pob ysgol yng Nghaerffili.

**Disgrifiad o'r Hysbysiad Preifatrwydd:**

Bydd yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn esbonio sut mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a'r ysgol yn prosesu gwybodaeth bersonol cyflogeion mewn ysgolion fel Cyd-Reolyddion yn ystod pandemig Covid-19. Mae staff mewn ysgolion wedi'u contractio gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili fel yr Awdurdod Addysg Lleol. Fodd bynnag, caiff perfformiad ei reoli gan yr ysgol.

## Sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth

## Y math o wybodaeth sy'n cael ei phrosesu a'i ffynhonnell

**Ymhlith y categorïau o wybodaeth am gyflogeion a gaiff ei chasglu, ei dal a'i rhannu gan bob ysgol a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili mae:**

| Y math o wybodaeth | Enghreifftiau | Y defnydd a wneir o'r data | Y sail dros brosesu |
|---|---|---|---|
| Data Personol | Enw<br>Cyfeiriad<br>Manylion cyswllt<br>Dyddiad geni<br>Rhif Yswiriant Gwladol<br>Statws priodasol<br>Cenedligrwydd<br>Ethnigrwydd<br>Rhyw<br>Crefydd | Gohebiaeth<br>Recriwtio<br><br>Trefnu darpariaeth gofal plant<br><br>Adroddiadau monitro cydraddoldeb | Cyflawni contract cyflogaeth<br><br>Cyfathrebu â staff sy'n gweithio o bell<br><br>Cyfrifoldebau Statudol<br><br>Cyflawni contract |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Anableddau<br>Manylion cyswllt mewn argyfwng | Enw cyswllt mewn argyfwng | cyflogaeth |
| Data adnabod | Ffotograffau | Cardiau adnabod<br>Recriwtio | Cyflawni contract cyflogaeth a Chyfrifoldebau Statudol |
| Data cyflogaeth | Ffurflen Gais<br>Cyfeiriadau<br>Gwiriadau cyn cyflogaeth<br>Cymwysterau<br>Hyfforddiant<br>Cofnodion absenoldeb<br>Hanes cyflogaeth<br>Cofnodion adolygiadau o ddatblygiad proffesiynol/Goruchwyliaeth<br>Cofnodion disgyblu<br>Cofnodion cwynion | Recriwtio<br>Gweinyddu cyflogeion<br>Rheoli cydberthnasau â chyflogeion | Cyflawni contract cyflogaeth |
| Diogelwch | Rheoli mynediad i systemau TG<br>Ffotograffau<br>Lluniau fideo teledu cylch cyfyng (CCTV) | Mynediad i systemau TG<br>Mynediad i adeiladau<br>Diogelwch<br>Atal troseddu | Cyflawni contract cyflogaeth a Chyfrifoldebau Statudol |

**Mae gwybodaeth ychwanegol am gyflogeion a gaiff ei chasglu, ei dal a'i rhannu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cynnwys:**

| Y math o wybodaeth | Enghreifftiau | Y defnydd a wneir o'r data | Y sail dros brosesu |
|---|---|---|---|
| Data adnabod | Pasbort<br>Trwydded yrru<br>Biliau cyfleustodau | Cardiau adnabod<br>Recriwtio | Cyflawni contract cyflogaeth a Chyfrifoldebau Statudol |
| Data cyflogaeth | Contract cyflogaeth<br>Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd* | Recriwtio<br>Gweinyddu cyflogeion<br>Rheoli cydberthnasau â chyflogeion | Cyflawni contract cyflogaeth |
| Data sydd eu hangen i brosesu'r gyflogres | Manylion cyfrif banc<br>Rhif Yswiriant Gwladol<br>Manylion treth<br>Manylion cerbyd<br>Manylion pensiwn | Taliadau cyflog<br>Cofnodion treth ac Yswiriant Gwladol<br>Taliadau treuliau<br>Cofnodion pensiwn | Cyflawni contract cyflogaeth a Chyfrifoldebau Statudol |

Mae'r tabl uchod yn rhoi amlinelliad o'r wybodaeth a ddelir ac nid yw'n rhestr gynhwysfawr.

* Ceir copi o'r hysbysiad preifatrwydd sy'n ymwneud â cheisiadau i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yma:
https://www.caerphilly.gov.uk/CaerphillyDocs/FOI/PrivacyNotices/DBS_and_ID_external_verification_cy.aspx

**Ffynhonnell y data personol**

Casglwyd y wybodaeth hon gan:

- Unigolion yn uniongyrchol (e.e. ffurflenni staff newydd), negeseuon e-bost yn gofyn am wirfoddolwyr i weithio mewn canolfannau, ac ati)
- Cyflogwyr eraill y mae'r unigolyn wedi gweithio iddynt yn flaenorol (e.e. i gael geirdaon)
- Ysgolion Caerffili

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am ffynhonnell y wybodaeth hon, cysylltwch â Gwasanaethau Pobl Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili neu'r ysgol yn uniongyrchol.

**Eich Rhwymedigaethau**

Mae rhai mathau penodol o ddata rydych yn eu rhoi i ni yn hollbwysig at ddefnydd gweithredol. Er bod y rhan fwyaf o'r wybodaeth bersonol rydych yn ei rhoi i ni yn orfodol oherwydd rhwymedigaeth gyfreithiol neu gytundebol (gweler isod), mae rhywfaint ohoni yn ddewisol ac, os felly, gofynnir i chi roi eich caniatâd.

Byddwn yn rhoi gwybod i chi pan fyddwn yn casglu'r wybodaeth, a oes angen i chi roi gwybodaeth bersonol benodol i ni neu a oes gennych ddewis yn hyn o beth. Byddwn hefyd yn nodi unrhyw ganlyniadau os byddwch yn penderfynu peidio â rhoi gwybodaeth i ni neu os byddwch yn tynnu eich caniatâd yn ôl wedi hynny.

## Pam rydym yn casglu ac yn defnyddio eich gwybodaeth

Mae angen i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a'r ysgol gasglu a phrosesu data personol er mwyn i ni reoli'r gydberthynas gyflogaeth â staff yn yr ysgol yn effeithiol. Mae angen y wybodaeth hon er mwyn cyflawni'r contract cyflogaeth a'r cyfrifoldebau statudol, megis:

- Cyfathrebu â staff sy'n gweithio o bell (e.e. rotas canolfannau gofal plant) efallai yr hysbysir aelodau eraill o staff (e.e. mewn canolfan gofal plant) os bydd angen gwneud addasiadau rhesymol yn y gweithle
- gweinyddu gweithgareddau datblygu proffesiynol (e.e. hyfforddiant)
- monitro absenoldebau ac adrodd arnynt (h.y. hyd y cyfnod o absenoldeb a'r math o absenoldeb)
- prosesu cofnodion cyflogres (e.e. manylion banc a lwfansau)
- cadw cofnodion am unrhyw gamau disgyblu a chwynion
- gweinyddu buddiannau cyflogeion
- cyflawni'r dyletswyddau statudol a osodir arnom at ddibenion casglu data Llywodraeth Cymru

Gall y ddau Reolydd Data weld y data hyn am y rhesymau a restrwyd uchod.

Rydym yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth am gyflogeion o dan Ddeddf Addysg 2002 a chyfreithiau cyflogaeth y DU. Fel Rheolyddion Data, rydym hefyd yn cydymffurfio â'r Erthyglau isod o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (UK GDPR).

**Y sail gyfreithiol dros brosesu**

Er mwyn i'r gwaith o brosesu data personol fod yn gyfreithlon o dan UK Reoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data, mae'n rhaid nodi amod dilys o Erthygl 6 o'r Rheoliadau, a amlinellir isod:

| ***Sail gyfreithiol o dan Erthygl 6 o'r UK GDPR***<br>*(nid yw'r isod ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniadau o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw)* | **Enghreifftiau o'r ffordd y defnyddir data personol** |
|---|---|
| *1a. the data subject has given consent to the processing of his or her personal data for one or more specific purposes* | Os byddwch wedi gofyn i ni ddarparu gwybodaeth amdanoch i sefydliad arall, megis cwmnïau morgais, geirdaon cyflogeion, geirdaon landlordiaid. Noder nad yw'r rhestr hon yn gynhwysol nac yn gynhwysfawr. |
| *1b. processing is necessary for the performance of a contract to which the data subject is party or in order to take steps at the request of the data subject prior to entering into a contract* | Mae pob ysgol unigol yn cynnal proses rheoli perfformiad gyda staff yn yr ysgol ac mae'n cael cymorth gan Wasanaethau Pobl CBSC i roi polisïau a gweithdrefnau ar waith. Mae CBSC yn prosesu gwybodaeth am gontractau cyflogaeth ynghyd â'ch manylion banc, treth a chyflogres er mwyn eich talu. |
| *1c. processing is necessary for compliance with a legal obligation to which the controller is subject;* | Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ddyletswydd gyfreithiol i rannu gwybodaeth amdanoch â sefydliadau megis yr Adran Gwaith a Phensiynau, ac ati. |
| *1f. processing is necessary for the purposes of the legitimate interests pursued by the controller or by a third party, except where such interests are overridden by the interests or fundamental rights and freedoms of the data subject which require protection of personal data, in particular where the data subject is a child.* | Mae ein buddiannau dilys yn cynnwys cynnal eich cofnodion hyfforddi a chadw eich ffotograff ar gyfer Cardiau Adnabod. Gellir defnyddio data personol, megis manylion cyswllt, i gyfathrebu â staff sy'n gweithio o bell ynghylch rotas gwirfoddolwyr ar gyfer canolfannau gofal plant a monitro llesiant staff. |

Mae deddfwriaeth Diogelu Data yn rhoi diogelwch ychwanegol i gategorïau penodol o wybodaeth a elwir yn 'ddata personol arbennig', sy'n cynnwys:

- Tarddiad hiliol neu ethnig
- Credoau crefyddol neu gredoau tebyg eraill
- Barn wleidyddol
- Cyflwr corfforol neu gyflwr iechyd meddwl
- Data genetig
- Data biometrig (pan gaiff eu defnyddio at ddibenion adnabod)
- Bywyd neu gyfeiriadedd rhywiol
- Aelodaeth o undeb llafur

Os bydd unrhyw wybodaeth yn dod o dan y diffiniad o ddata personol arbennig, yna bydd yn rhaid nodi amod ychwanegol o Erthygl 9 o'r Rheoliadau, fel y nodir isod (nid yw ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniadau o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw):

*1(1)(a) the processing is necessary for the purposes of performing or exercising obligations or rights which are imposed or conferred by law on the controller or the data subject in connection with employment, social security or social protection.*

*6 (1) This condition is met if the processing—*

> *(a) is necessary for a purpose listed in sub-paragraph (2), and*
> *(b) is necessary for reasons of substantial public interest.*

*(2) Those purposes are—*

> *(a) the exercise of a function conferred on a person by an enactment or rule of law;*
> *(b) the exercise of a function of the Crown, a Minister of the Crown or a government department*

*8 (1) This condition is met if the processing—*

> *(a) is of a specified category of personal data, and*
> *(b) is necessary for the purposes of identifying or keeping under review the existence or absence of equality of opportunity or treatment between groups of people specified in relation to that category with a view to enabling such equality to be promoted or maintained*

Mae deddfwriaeth Diogelu Data hefyd yn rhoi diogelwch ychwanegol i ddata personol sy'n ymwneud â honiadau troseddol, achosion, canlyniadau a dedfrydau. Os bydd unrhyw ddata personol yn perthyn i'r categori hwn, yna mae'n rhaid nodi amod ychwanegol o Erthygl 10 o'r Rheoliadau. At ddibenion cyflogaeth, byddai'r amod hwn fel a ganlyn:

*1(1)(a) mae prosesu yn angenrheidiol at ddibenion cyflawni neu arfer rhwymedigaethau neu hawliau a osodir ar y rheolydd neu destun y data, neu a roddir iddo, gan y gyfraith mewn cysylltiad â chyflogaeth, nawdd cymdeithasol neu ddiogelwch cymdeithasol.*

Mae'r uchod yn un o amodau Erthygl 9 ac Erthygl 10 ar gyfer prosesu.

### Yr hawl i dynnu caniatâd yn ôl

Mae gennych yr hawl i dynnu eich caniatâd yn ôl os mai'r sail gyfreithiol dros brosesu yw caniatâd. Er mwyn tynnu eich caniatâd yn ôl, cysylltwch â Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn uniongyrchol gan ddefnyddio'r ddolen ar frig y ddogfen hon.

## Pwy fydd yn gallu gweld eich gwybodaeth?

### Pwy yw'r Rheolydd Data a'r Swyddog Diogelu Data?

Rheolydd Data eich gwybodaeth yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a'r ysgol(ion) rydych yn cael, neu wedi cael, eich cyflogi, ynddi/ynddynt.

Gallwch gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data drwy ffonio 01443 864049 neu drwy anfon e-bost i DiogeluData@caerffili.gov.uk

## Manylion prif ddefnyddwyr eich gwybodaeth

Prif ddefnyddwyr eich gwybodaeth fydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (sy'n cyflogi staff ysgol i weithio mewn ysgolion unigol*) a'r ysgolion rydych yn cael eich cyflogi ynddi/ynddynt. Ymhlith y rhain mae:

- rheolwyr a goruchwylwyr sy'n berthnasol i'r swydd mewn ysgolion (h.y. y Pennaeth, arweinydd canolfannau gofal plant neu'r swyddog cyfrifol) at ddibenion rheoli perfformiad.
- staff Adran Gwasanaethau Pobl Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (gan gynnwys y Gyflogres, Iechyd a Diogelwch ac Iechyd Galwedigaethol)
- Caiff data personol categori arbennig eu casglu er mwyn monitro cydraddoldeb ac fe'u gwelir gan staff Adran Gwasanaethau Pobl Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a'r Uwch-Dîm Rheoli ym mhob ysgol. Ni fydd unrhyw adroddiadau sy'n cynnwys data cydraddoldeb yn datgelu enw ymgeiswyr na chyflogeion unigol.
- Gwelir data personol categori arbennig sy'n ymwneud ag anabledd gan staff Adran Gwasanaethau Pobl Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a'r Uwch-Dîm Rheoli ym mhob ysgol. Efallai yr hysbysir aelodau eraill o staff (e.e. mewn canolfan gofal plant) os bydd angen gwneud addasiadau rhesymol yn y gweithle.

***** Noder, oherwydd argyfwng pandemig Covid-19, y gallai staff mewn ysgolion gael eu hadleoli i rannau eraill o Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili er mwyn cefnogi gwasanaethau hanfodol.

### Manylion am rannu eich gwybodaeth â sefydliadau eraill

Efallai y bydd yn ofynnol i ni rannu gwybodaeth am gyflogeion â gwasanaethau mewnol a/neu sefydliadau allanol penodol, ond dim ond gyda rheswm clir a sail gyfreithiol briodol o dan ddeddfwriaeth diogelu data.

Byddwn bob amser yn sicrhau bod data yn cael eu rhannu'n ddiogel.

| **Sefydliad** | **Rheswm** | **Sail Gyfreithiol** |
|---|---|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | Adleoli staff i wasanaethau hanfodol eraill, megis darparu gofal plant ar gyfer gweithwyr allweddol | Mae prosesu yn angenrheidiol er mwyn cyflawni tasg gyhoeddus. Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am ddarparu gofal plant ar gyfer gweithwyr allweddol a sicrhau bod canolfannau yn cael eu staffio'n gyson yn ôl *Canllawiau i hybiau ac ysgolion: darpariaeth ar gyfer plant gweithwyr hanfodol a* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *phlant agored i niwed* gan Lywodraeth Cymru. |
| | Darparu systemau digidol cymorth TG a ddefnyddir i weinyddu'r gwasanaethau Adnoddau Dynol a'r Gyflogres. | Mae prosesu yn angenrheidiol er mwyn cyflawni buddiant dilys (Erthygl 6 o'r UK GDPR). |
| | Cefnogi archwiliadau mewnol o gofnodion yr ysgol a gynhelir o dan y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio. | Cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol (Erthygl 6 o'r UK GDPR) |
| | Amddiffyn hawliadau yswiriant. Ymdrinnir â'r rhain gan yr Adran Yswiriant yn CBSC y gallai fod angen iddi weld gwybodaeth amdanoch at ddibenion gweinyddu neu amddiffyn yr hawliad. | Mae prosesu yn angenrheidiol ar gyfer buddiannau dilys (Erthygl 6 o'r UK GDPR) ac achosion cyfreithiol (Erthygl 9 o'r UK GDPR) |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | Cynnal profion gwrthgyrff ar weithwyr hanfodol, gan gynnwys staff addysg a gofal plant. | Mae prosesu yn angenrheidiol er mwyn cyflawni tasg gyhoeddus (Erthygl 6 o'r UK GDPR) a ategir gan gyfraith cyflogaeth ac iechyd y cyhoedd [e.e. Rhan 2A o *Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984*]. |
| | Helpu gwasanaeth Profi Olrhain Diogelu GIG Cymru i atal y Coronafeirws rhag lledaenu. Darperir y gwasanaeth ar y cyd gan nifer o bartneriaid yn y sector cyhoeddus, gan gynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru, Byrddau Iechyd Lleol, Awdurdodau Lleol a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS). Mae'n ofynnol i ni rannu eich enw, eich dyddiad geni a'ch manylion cyswllt (gan gynnwys eich cyfeiriad). | Cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol (Erthygl 6 o'r UK GDPR) o dan Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 sy'n ei gwneud yn ofynnol i gamau rhesymol gael eu cymryd i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r Coronafeirws mewn mangreoedd sydd ar agor i'r cyhoedd ac unrhyw fangre lle mae gwaith yn cael ei wneud, yn ogystal â lleihau lledaeniad y Coronafeirws gan y rhai sydd wedi bod yn y fangre.<br><br>https://llyw.cymru/cymryd-pob-mesur-rhesymol-i-leihaur-risg-o-ddod-i-gysylltiad-ar-coronafeirws-mewn-gweithleoedd |

| | | |
|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru (rhagor o fanylion isod) | Darparu ystadegau er mwyn monitro gweithlu'r ysgol | Cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol (Erthygl 6 o'r UK GDPR) |
| | Ar gyfer y Cyfrifiad Blynyddol o Weithlu Ysgolion (SWAC), sef ymarfer casglu data statudol a gynhelir bob blwyddyn er mwyn casglu gwybodaeth am y gweithlu mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru. | Cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol (Erthygl 6 o'r UK GDPR) o dan Reoliadau Addysg (Cyflenwi Gwybodaeth am y Gweithlu Ysgolion) (Cymru) 2017 ac Adran 113(2) a (3) o Ddeddf Addysg 2005. |
| Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) | At ddibenion Treth ac Yswiriant Gwladol | Cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol (Erthygl 6 o'r UK GDPR) |
| Asiantaethau gorfodi'r gyfraith (e.e. yr Heddlu) | Er mwyn canfod neu atal troseddau (os cydymffurfir â gofynion diogelu data). | Cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol (Erthygl 6 o'r UK GDPR) |
| Y Fenter Twyll Genedlaethol | Atal gweithgarwch twyllodrus neu anghyfreithlon neu wallau. Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn cynnwys cymharu setiau o ddata electronig a ddelir gan un sefydliad â data a ddelir gan yr un sefydliad neu sefydliad arall er mwyn gweld i ba raddau y maent yn cyd-fynd â'i gilydd. Ceir Hysbysiad Preifatrwydd ar wahân sy'n ymwneud â'r Fenter Twyll Genedlaethol yn: https://www.caerphilly.gov.uk/CaerphillyDocs/FOI/PrivacyNotices/PrivacyNoticeNFISept2018_Welsh.aspx | Cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol (Erthygl 6 o'r UK GDPR) |
| Cymdeithasau safonau proffesiynol (e.e. Cyngor Gweithlu Addysg, ac ati) | Monitro safonau proffesiwn (h.y. addysgu) ac ymddygiad proffesiynol er mwyn cyfrannu at wella safonau. | Cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol (Erthygl 6 o'r UK GDPR) |

Rhannu gwybodaeth â Llywodraeth Cymru

At hynny, mae **Llywodraeth Cymru** yn cael gwybodaeth am y gweithlu ysgolion yn uniongyrchol gan ysgolion ac awdurdodau lleol fel rhan o SWAC. Mae'r Awdurdod Lleol yn yr achos hwn yn casglu'r data personol  a amlinellir isod gan ysgolion yng Nghaerffili er mwyn rhannu'r wybodaeth â Llywodraeth Cymru drwy borth diogel.

Mae SWAC yn cwmpasu pob lleoliad ysgol a gynhelir yng Nghymru, gan gynnwys:

- ysgolion meithrin a gynhelir;
- ysgolion cynradd a gynhelir;

- ysgolion canol a gynhelir (drwy ysgolion oedran);
- ysgolion uwchradd a gynhelir;
- ysgolion arbennig a gynhelir;
- unedau cyfeirio disgyblion (UCDau).

Am restr lawn o staff i'w cynnwys ewch i [https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-06/school-workforce-annual-census-data-items-collected_0.pdf](https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-06/school-workforce-annual-census-data-items-collected_0.pdf)

Ar ôl iddi gael y wybodaeth gan yr ysgol a'r awdurdod lleol, Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data.

Ymhlith y categorïau o wybodaeth am y gweithlu ysgolion a gaiff ei chasglu a'i dal mae:

✓ Gwybodaeth categori personol ac arbennig amdanoch, megis:

- Rhif cyfeirnod yr athro (TRN);
- Enw cyntaf;
- Enw(au) canol;
- Cyfenw;
- Dyddiad geni;
- Rhyw;
- Grŵp ethnig;
- Statws anabledd;
- Rhif Yswiriant Gwladol.

✓ Gwybodaeth am eich cyflog a'ch contractau (megis graddfeydd cyflog, lwfansau, cydnabyddiaeth ariannol a rhesymau dros adael).
✓ Gwybodaeth am eich absenoldebau (gan gynnwys hyd yr absenoldeb a'r math o absenoldeb)
✓ Gwybodaeth am sgiliau Cymraeg
✓ Gwybodaeth am y pynciau rydych yn eu haddysgu, y math o swydd sydd gennych a rolau cysylltiedig.

Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth a gaiff i brosesu data sydd eu hangen i gyflawni tasgau er budd y cyhoedd ac wrth arfer awdurdod swyddogol.

Caiff data eu defnyddio at y dibenion canlynol:

✓ Dibenion ystadegol a dibenion ymchwil er mwyn helpu i lunio polisi addysg, drwy adeiladu ar sail dystiolaeth gynhwysfawr er mwyn llywio prosesau cynllunio gwasanaethau i bobl yng Nghymru, dylanwadu arnynt a'u gwella.

✓ Helpu i lunio rhagamcanion cadarn o gyflog athrawon yng Nghymru, gan lywio negodiadau a phenderfyniadau ynghylch cyflog ac amodau a darparu mwy o dystiolaeth i gefnogi'r gwaith o gynllunio'r gweithlu yn y dyfodol.

✓ Gwneud gwaith dadansoddi ar lefel ysgol ac awdurdod lleol ar gyfer ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol.

✓ Nodi achosion anghydraddoldebau o ran cyflogaeth, sgiliau a chyflog sy'n ymwneud â rhyw, ethnigrwydd, oedran ac anabledd a'u lleihau.

✓ Cysylltu â setiau data eraill, gan gynnwys data anaddysgol er mwyn llywio polisïau addysg, polisïau iechyd a pholisïau cymdeithasol ehangach. Mae enghreifftiau o setiau data y gallwn eu cysylltu yn cynnwys data myfyrwyr a graddedigion gan Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) neu ddata cyflogaeth a llesiant gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP). Dim ond os bydd y gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny y byddwn yn cysylltu setiau data.

Mae'r defnydd o ddata at ddibenion ystadegol gan Lywodraeth Cymru hefyd yn cael ei reoli yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau ("y Cod") yn ogystal â deddfwriaeth diogelu data. Mae Egwyddor T6 o'r Cod yn ymdrin â llywodraethau data.

Ewch i https://llyw.cymru/cyfrifiad-blynyddol-or-gweithlu-ysgolion-cbgy-hysbysiad-preifatrwydd am ragor o wybodaeth am y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn prosesu eich data personol.

**Ceisiadau am wybodaeth**

Gellir gwneud cais am unrhyw wybodaeth wedi'i chofnodi a ddelir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a'r ysgol(ion) rydych yn cael, neu wedi cael, eich cyflogi ynddi/ynddynt o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a deddfwriaeth Diogelu Data (UK Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data a Deddf Diogelu Data 2018).

Os bydd y wybodaeth a ddarperir gennych yn destun cais o'r fath, lle y bo'n bosibl, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a'r ysgol yn ymgynghori â chi ynghylch ei rhyddhau. Os byddwch yn gwrthwynebu rhyddhau eich gwybodaeth, ni fyddwn yn rhyddhau eich gwybodaeth os bydd y ddeddfwriaeth berthnasol yn caniatáu hynny.

## Pa mor hir y byddwn yn cadw eich gwybodaeth

**Manylion y cyfnod cadw**

Rydym yn cadw data cyflogeion mewn ysgolion yn ddiogel am y cyfnod penodol o amser a nodir ar ein hamserlen cadw data. Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a'r ysgol yn cadw gwybodaeth yn unol â chanllawiau gan *Becyn Cymorth IRMS i Ysgolion* y gellir eu gweld yn https://irms.org.uk/page/SchoolsToolkit

## Eich Hawliau (gan gynnwys y Weithdrefn Gwyno)

**Eich hawliau o dan ddeddfwriaeth diogelu data**

Mae deddfwriaeth Diogelu Data yn rhoi nifer o hawliau i destunau data (y rhai y mae'r wybodaeth amdanynt), sy'n cynnwys:

- **Yr hawl i gael gwybod** sut mae data personol yn cael eu casglu, eu storio, eu rheoli, eu diogelu a'u prosesu.
- **Hawl fynediad** i ofyn am gopi o wybodaeth bersonol a ddelir amdanoch. Fodd bynnag, byddwch yn ymwybodol y gellir gwrthod rhyddhau gwybodaeth weithiau yn gyfreithlon.

- **Yr hawl i gywiro** data personol anghywir neu anghyflawn.
- **Yr hawl i ddileu** lle mae gennych yr hawl i ofyn am i'ch data personol gael eu dileu o dan amgylchiadau penodol. Nid yw hyn yn cynnwys unrhyw ddata personol y mae'n rhaid eu cadw o dan y gyfraith.
- **Yr hawl i gyfyngu**, sy'n eich galluogi i gyfyngu ar y ffordd rydym yn defnyddio eich data personol o dan amgylchiadau penodol.
- **Yr hawl i gludadwyedd,** sy'n rhoi'r hawl i unigolyn gael copïau o ddata a ddarparwyd i reolydd ar ffurf gludadwy.
- **Yr hawl i wrthwynebu** prosesu eich data personol; ac, yn olaf,
- **Hawliau sy'n ymwneud â phrosesau gwneud penderfyniadau awtomataidd a phroffilio.**

Er mwyn arfer eich hawliau, cysylltwch â Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn uniongyrchol fel y nodir ar frig y ddogfen hon. Cedwir copi o gais i arfer eich hawliau fel unigolyn a'r ymateb a roddwyd i chi am dair blynedd.

**Y Weithdrefn Gwyno**

Os na fyddwch yn fodlon ar y ffordd rydym wedi ymdrin â'ch cais/gwybodaeth, mae gennych yr hawl i gwyno. Cysylltwch â'r Rheolydd Data a oedd yn gyfrifol am brosesu eich gwybodaeth yn y lle cyntaf a nodwch eich pryderon.

*Enghreifftiau sy'n disgrifio pa Reolydd Data y dylech gysylltu ag ef os na fyddwch yn fodlon ar y ffordd rydym wedi ymdrin â'ch cais/gwybodaeth:*

- ❖ Dylid anfon unrhyw bryderon am gais a gyflwynwyd naill ai i Wasanaethau Pobl Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili neu'r ysgol yn uniongyrchol am gopi o ddata personol a ddelir amdanoch at y Rheolydd Data a brosesodd y cais.
- ❖ Dylid anfon unrhyw bryderon am y ffordd rydym wedi ymdrin â'ch gwybodaeth bersonol at y Rheolydd Data sy'n gyfrifol am y wybodaeth (gweler isod).

**Gwasanaethau Pobl Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**

- ➢ Gwybodaeth am gontractau cyflogaeth, y gyflogres, a/neu dreth.

**Yr ysgol(ion) rydych yn cael eich cyflogi ynddi/ynddynt**

- ➢ Gwybodaeth am brosesau rheoli perfformiad (h.y. absenoldeb/cofnodion hyfforddi, Adolygiadau o Ddatblygiad Proffesiynol, ac ati)

Os byddwch yn anfodlon o hyd, gallwch gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data drwy ffonio 01443 864322 neu drwy anfon e-bost i DiogeluData@caerffili.gov.uk

Mae gennych yr hawl hefyd i ofyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth, sy'n gorfodi ac yn goruchwylio'r Ddeddf Diogelu Data yn y DU, asesu a yw'r gwaith o brosesu gwybodaeth bersonol yn debygol o gydymffurfio â darpariaethau ein cyfrifoldebau deddfwriaethol ai peidio. Ceir rhagor o wybodaeth am eich hawliau yn: www.ico.org.uk.